Briff Ymchwil

# Trafodaethau ar y DU yn Ymadael â'r UE: Adroddiad Monitro - 20 Medi 2017

**Paratowyd ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nia Moss**
Dyddiad: **Medi 2017**
Rhif Papur: **17-023**

## Cysylltwch â ni

**Nia Moss**
**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6313**
: **Nia.Moss@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Trafodaethau ar y DU yn Ymadael â'r UE: Adroddiad Monitro 20 Medi 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1. Cyflwyniad.

Mae'r papur hwn yn trafod y diweddaraf ar y datblygiadau ers mis Mehefin 2017 gyda Thrafodaethau Erthygl 50 mewn cysylltiad â'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae tri chylch o drafodaethau wedi dod i ben ac mae dau gylch arall wedi eu trefnu cyn 13 Hydref 2017. Mae'r papur yn rhoi:

- Crynodeb o'r papurau sefyllfa a gyhoeddwyd hyd yma;
- Dadansoddiad o'r prif faterion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ('y Pwyllgor');
- Ymatebion gan Lywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd;
- Ymateb a phapurau Llywodraeth Cymru.

# 2. Papurau Sefyllfa Llywodraeth y DU a'r UE: Crynodeb

Mae'r DU a'r UE wedi cyhoeddi cyfres o bapurau sefyllfa yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer y trafodaethau. Mae'r UE wedi **cyhoeddi 14 o bapurau sefyllfa** gan gynnwys papurau sefyllfa ar hawliau dinasyddion, y fethodoleg ar gyfer cytuno ar y setliad ariannol, cyfres o bapurau ar yr agweddau technegol ar y cytundeb ymadael a phapur ar y deialog ynghylch y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Drwy gydol y trafodaethau hyd yma, mae'r UE wedi mynnu y dylai'r trafodaethau ddigwydd mewn dau gam. Mae'r cam cyntaf yn trafod materion yn ymwneud â'r DU yn ymadael â'r UE ac mae'r ail gam yn canolbwyntio ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Mae'r UE wedi datgan na ellir ond mynd i ail gam y trafodaethau ar ôl symud ymlaen yn ddigonol ar y cam cyntaf.

Disgwylir i dîm trafod yr UE wneud argymhelliad yng nghyfarfod mis Hydref Cyngor y Gweinidogion yn nodi a yw pethau wedi symud ymlaen yn ddigonol.

Ers mis Mehefin 2016, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi saith papur sefyllfa ar faterion yn ymwneud â thrafodaethau ar y Cytundeb Ymadael a chwe phapur sefyllfa ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei alw y bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papurau sefyllfa ar y Cytundeb Ymadael yn cynnwys papurau ar hawliau dinasyddion, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon a nifer o faterion technegol ynglŷn â'r gwahanu. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi nad yw'n bwriadu cyhoeddi ei phapur sefyllfa ar y setliad ariannol ar hyn o bryd.

Mae'r papurau ar y bartneriaeth yn y dyfodol yn cynnwys cynigion ar drefniadau ym maes tollau yn y dyfodol, cydweithio ar ddiogelwch ac ymchwil, a rhannu data personol. Mae crynodeb o'r papurau sefyllfa i'w gweld yn y tabl ar y dudalen nesaf. Mae dadansoddiad mwy manwl o'r materion a'r papurau sydd o'r diddordeb mwyaf i'r Pwyllgor i'w gweld yn adran nesaf y papur hwn.

### Tabl 1 Papurau Sefyllfa a gyhoeddwyd gan yr UE a'r DU

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| Essential Principles on Citizens Rights<br>29 Mai 2017 i 27 yr UE<br>12 Mehefin i'r DU | Mae'n nodi safbwynt yr UE ar hawliau dinasyddion y DU yn yr UE a dinasyddion yr UE yn y DU. | Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU: Position Paper.<br>26 Mehefin 2017 | Mae'n nodi safbwynt y DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr UE eu mwynhau yn y DU a'r hawliau y dylai dinasyddion y DU eu mwynhau yn yr UE. Gallwch ddarllen erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o fanylion. |
| Essential Principles on the financial settlement<br>29 Mai 2017 i 27 yr UE<br>12 Mehefin i'r DU | Mae'n nodi cynigion yr UE ar gyfer y fethodoleg y dylid cytuno arni yn ystod trafodaethau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r UE. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, y cyrff a'r offerynnau ariannol i'w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim. | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ymadael â'r UE wedi amlinellu y bydd y DU yn archwilio safbwynt yr UE yn hytrach na phennu eu safbwynt ei hun. |
| Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)<br>23 Mehefin 2017 i 27 yr UE<br>13 Gorffennaf i'r DU | Mae'n nodi cynigion yr UE ar gyfer trin deunyddiau ymholltol arbennig a throsglwyddo perchnogaeth y deunyddiau hyn. Mae'n cwmpasu llai o feysydd na'r hyn a gynigir gan y DU mewn papur cyfatebol. | Nuclear material and safeguards issues. | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae'n awyddus i drafodaethau am y materion hyn eu cyflawni. Mae'n cwmpasu rhai meysydd ychwanegol i'r rhai a gwmpaswyd gan y Comisiwn Ewropeaidd gan gynnwys contractau presennol ar gyfer cyflenwi deunydd niwclear a gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol, ar ôl ymadael, barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth y cawsant eu cynhyrchu ynddi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Judicial cooperation in civil and commercial matters<br>29 Mehefin 2017 i 27 yr UE<br>13 Gorffennaf i'r DU | Mae'n nodi cynigion ar gyfer gweithdrefnau i'w rhoi ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd ar ddyddiad ymadael y DU. | Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper<br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi gosod ei sefyllfa o ran y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol mewn achosion sy'n aros am ddedfryd ar ddyddiad ymadael y DU, a chynigion ar gyfer cydweithredu parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr UE ac mae'n nodi blaenoriaeth Llywodraeth y DU pe na cheir cytundeb ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'n nodi, fodd bynnag, nad yw'n ffafrio peidio â chael cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben wrth i'r DU adael yr UE, ond y bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r UE sy'n caniatáu ar gyfer cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol agos a chynhwysfawr. |
| Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters<br>29 Mehefin 2017 i 27 yr UE<br>13 Gorffennaf i'r DU | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn berthnasol yn y dyfodol, megis gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd, ar y dyddiad ymadael, a'r broses o ymdrin â gwybodaeth a gafwyd trwy gyfrwng y gweithdrefnau hyn. | Security law enforcement and criminal justice: Future Partnership Paper | Mae Atodiad A o'r papur yn cynnig ymateb uniongyrchol i'r materion a nodwyd gan yr UE yn ei phapur hithau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ynglŷn ag ymadael o safbwynt materion troseddol gan gyfeirio at y trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddyfnach a chydweithio dyfnach rhwng y DU a'r UE ar faterion gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol na'r hyn sydd gan yr UE ar hyn o bryd â gwledydd trydydd parti. Mae'n nodi y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill yn ymwneud â'r bartneriaeth yn y dyfodol, ar ddiogelwch a diogelu data. |
| **Ongoing Union and Judicial Procedures**<br>29 Mehefin 2017 i 27 yr UE<br>13 Gorffennaf i'r DU | Mae'n nodi'r cynigion ar gyfer gweithdrefnau i'w rhoi ar waith ar gyfer achosion sydd gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop yn ymwneud â'r DU neu breswylwyr/personau cyfreithiol y DU ac sy'n mynd rhagddynt pan fydd y DU yn ymadael yn ogystal â chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus gerbron sefydliadau, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau'r Undeb sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/personau cyfreithiol y DU. Roedd yr UE yn cynnig y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw peth cymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion yn erbyn y DU, os ydynt yn dod ger ei bron ar ôl i'r DU ymadael ond yn ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | **Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper.**<br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael, ac y dylent barhau i fod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop. Mae'n ceisio cytundeb ynglŷn â meini prawf ar gyfer diffiniad o 'aros am ddedfryd' ('pending'). Mae hefyd yn ceisio eglurhad o rôl Adfocad Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys am gyfnod trosiannol tra bod achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw peth cymhwysedd dros achosion sy'n cael eu dwyn gerbron ar ôl y dyddiad ymadael ac sy'n ymwneud â chamau gweithredu a ddigwyddodd cyn y dyddiad ymadael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies<br>29 Mehefin 2017 i 27 yr UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi safbwynt yr UE ar ba amddiffyniad a breintryddid a fydd yn gymwys i sefydliadau ac asiantaethau'r UE yn y DU ar ôl ymadael tra bod gweithgareddau cyrff yr UE yn y DU yn cael eu dirwyn i ben. | Privileges and Immunities<br>13 Gorffennaf 2017 | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniad a breintryddid i eiddo, asedau a gweithrediadau'r UE yn y DU am gyfnod trosiannol ar ôl ymadael. Mae'r rhai sy'n trafod ar y ddwy ochr wedi awgrymu eu bod yn agos at ddod i gytundeb ar y mater hwn. |
| Governance<br>29 Mehefin 2017 i 27 yr UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur hwn yn nodi cynigion yr UE ar gyfer dull o ddatrys anghydfod ar gyfer y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys sefydlu Cyd-bwyllgor i drafod anghydfodau. Mae'n nodi y dylai'r Cyd-bwyllgor gyfeirio at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Mae'n nodi y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn i fonitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinasyddion. | Enforcement and Dispute resolution: Future Partnership Paper<br>23 Awst 2017 | Mae'r papur yn cynnwys cynigion ar gyfer dull gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen dull newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Pan fydd y Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau i unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, safbwynt y DU yw y rhoddir effaith iddynt yng nghyfraith y DU ac y cânt eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na rheidrwydd yng nghyfraith yr UE na'r DU sy'n nodi bod yn rhaid i achos gorfodi neu ddatrys anghydfod ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date**<br>29 Mehefin 2017 i'r UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn gymwys i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac a roddir ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi cael eu gwerthu ar y dyddiad ymadael. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper**<br>**21 Awst 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn nodi y dylid datrys y mater hwn drwy gyfeirio at unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn awyddus i gael rhagor o drafodaeth ar ystyr "wedi'u rhoi ar y farchnad" ("placed on the market") ac yn awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| **Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union**<br>7 Medi 2017 i 27 yr UE | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau o ran tollau a ddylai fod yn gymwys i nwyddau a ddechreuodd ar eu taith cyn y dyddiad ymadael ond a gyrhaeddodd eu cyrchfan ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper**<br>**21 Awst 2017**<br>**Future customs arrangements: Future Partnership Paper**<br>**15 Awst 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad o ran nwyddau yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â thollau yn ymwneud â nwyddau sydd ar y farchnad ar yr adeg ymadael, ond mae'n gwneud hynny gan gyfeirio at ei chynigion ar gyfer perthynas o ran tollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater gan gyfeirio at bartneriaeth yn y dyfodol. |
| **Guiding Principles transmitted to EU 27 for the Dialogue on Ireland/Northern Ireland.**<br>7 Medi 2017 i 27 yr UE | Egwyddorion a nodir fel sail i'r trafodaethau am y berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni chynigir unrhyw atebion ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion. | **Northern Ireland and Ireland: Position Paper**<br>16 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU aros, y dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na fydd hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon yn cael eu heffeithio gan barhad yr Ardal Deithio Gyffredin. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffin ar y tir ond mae'n gosod egwyddorion i'w defnyddio i brofi modelau. Mae'n croesgyfeirio cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | trefniadau ym maes tollau yn y dyfodol. Mae'n nodi na ddylai'r un ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol sefydlu ffin tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain. Mae'n gwneud cynigion penodol ynglŷn â chynnyrch bwyd-amaeth. Ar wahân i'r trafodaethau ehangach ar y setliad ariannol, mae'n awgrymu y dylai fod cytundeb i barhau â'r rhaglen ariannu ar gyfer heddwch yng Ngogledd Iwerddon a siroedd ar y ffin yn Iwerddon. |
| **Public Procurement**<br>7 Medi 2017 i 27 yr UE | Cynigion ar gyfer rheolau a gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn gymwys i weithdrefnau a chontractau caffael sy'n mynd rhagddynt ar y dyddiad ymadael. | Dim. | |
| **Intellectual Property Rights (including geographical indications)**<br>7 Medi 2017 i 27 yr UE | Cytuno ar gynigion ar gyfer parhau i amddiffyn hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael gan gynnwys amddiffyn enwau bwydydd gwarchodedig. Mae'r UE yn awgrymu y bydd angen i'r DU gael deddfwriaeth ddomestig ar waith, cyn y dyddiad ymadael, ar enwau bwyd gwarchodedig. | Dim. | |
| **Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the** | Cynigion ar gyfer y rheolau ac amddiffyniadau a ddylai fod yn gymwys i ddata a ddelir neu a | **Confidentiality and access to documents: Position Paper 21 Awst 2017** | Mae'r papur yn nodi y dylid pennu nod y dylai'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r UE |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Withdrawal Date<br>7 Medi 2017 i 27 yr UE | brosesir yn y DU a'r UE ar ôl y dyddiad ymadael. | | amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a hawl i weld ddogfennau, fel sydd ganddynt ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr UE. |
| Dim. | | Future Customs Arrangements: Future partnership paper<br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau opsiwn posibl ar gyfer perthynas yn y dyfodol ym maes tollau: trefniant tollau hynod syml rhwng y DU a'r UE; neu bartneriaeth tollau newydd â'r UE lle y byddai'r DU yn alinio ei ffin â'r UE mewn modd a fyddai'n cael gwared ar yr angen am ffin tollau rhwng y DU a'r UE. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu trafod ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.<br>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr UE ar gyfer nwyddau o weddill y byd pan mai'r UE yw eu lleoliad terfynol. Mae'n nodi y byddai hyn yn ddigynsail ac y gallai fod yn heriol i'w weithredu ond mae'n dymuno archwilio'r opsiwn hwn gyda'r UE.<br>Mae'r papur yn cynnig model, â therfyn amser, o gysylltiad agos ag undeb tollau'r UE am gyfnod trosiannol er mwyn osgoi sefyllfa o newid disymwth i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim. | | The exchange and protection of personal data: Future partnership paper<br>24 Awst 2017 | Mae'n nodi cynigion Llywodraeth y DU o ran model newydd rhwng y DU a'r UE ar gyfer cyfnewid a diogelu data personol yn seiliedig ar ddull presennol yr UE. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr UE. |
| Dim. | | Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper<br>6 Medi 2017 | Mae'n nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb â'r UE ym maes gwyddoniaeth ac arloesi. Mae'n nodi y dylai'r cytundeb fod yn eang gan ganiatáu ar gyfer meysydd ymchwil newydd. Mae'n nodi y bydd angen trafod mynediad parhaus y DU i raglenni ymchwil ac arloesi yr UE ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud er mwyn cymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen pwyso a mesur y cyfraniad hwn yn erbyn blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad Prifysgolion Cymru mewn rhaglenni a rhwydweithiau presennol. |
| Dim. | | Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper<br>12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth â'r UE yn y dyfodol ar ddiogelwch ac amddiffyn sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr UE ar hyn o bryd â gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle y ceir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cydweithio ar hyn o bryd ym maes amddiffyn, diogelwch a datblygiad rhyngwladol. |

# 3. Meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor

Mae’r meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor yn cynnwys y papurau a gyhoeddwyd gan yr UE a'r DU ar y berthynas rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, a chynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau yn y dyfodol ym maes tollau.

Mae papur sefyllfa Llywodraeth y DU ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon yn croesgyfeirio at ei chynigion am berthynas bosibl â'r UE yn y dyfodol ym maes tollau. Nid yw'r papur yn cynnig modelau gwahanol ar gyfer gweithredu'r ffin ond, yn hytrach, mae'n rhestru egwyddorion y dylid eu defnyddio i brofi unrhyw fodel yn y dyfodol. Mae'r DU yn cytuno â'r UE y dylid osgoi cael ffin galed. Mae'r papur yn nodi y gallai partneriaeth newydd o ran tollau, lle mae'r DU yn adlewyrchu gofynion yr UE ar gyfer nwyddau o weddill y byd pan mai'r UE yw lleoliad terfynol y nwyddau, ganiatáu ar gyfer parhad masnach llyfn. Mae'r papur sy’n ymdrin â thollau a’r papur sy’n ymdrin â Gogledd Iwerddon ac Iwerddon yn cydnabod, serch hynny, y byddai hwn yn fodel digynsail ac y gallai fod yn heriol i'w weithredu. Mae'r papur ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon hefyd yn awgrymu y dylid caniatáu esemptiad masnach ar draws y ffin i unrhyw fusnesau bach a chanolig sy'n masnachu ar y ffin, ar gyfer unrhyw gytundeb tollau a masnach a lofnodir rhwng y DU a'r UE.

Un mater sy'n arbennig o berthnasol i waith y Pwyllgor ar borthladdoedd yw'r datganiad yn y papur ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon na ddylai’r un ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol cael ffin tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain.

Mater sydd o ddiddordeb arbennig i Gymru hefyd yw cynigion y papur ar reolaethau ym maes amaeth-bwyd, gan mai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad sy’n gyfrifol am nifer o reolaethau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r papur yn nodi y dylai'r DU a'r UE roi blaenoriaeth i geisio mynd i'r afael â sut i osgoi ffin galed ar gyfer mesurau i sicrhau iechyd anifeiliaid a phlanhigion (SPS) ar gyfer amaeth-bwyd. Mae Llywodraeth y DU yn dadlau na fyddai cymhlethdod mesurau SPS presennol yr UE ar gyfer trydydd gwledydd yn cyd-fynd â'r dyhead cyffredin i osgoi ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Mae'n pwysleisio y bydd y Bil Ymadael yn golygu bod cyfreithiau'r DU yn parhau yr un fath â chyfreithiau'r UE wrth ymadael ac felly y gellid dod i gytundeb rhwng y DU a'r UE ar reoliadau cyfatebol o ran y mesurau amaeth-bwyd. Mae'n nodi na fyddai angen mesurau a phrofion SPS ar y ffin, cyhyd â bod y cytundeb yn ddigon dwfn. Gallai'r math hwn o gytundeb gyfyngu ar allu'r DU a gwledydd datganoledig yn y dyfodol i bennu mesurau SPS gwahanol i'r rhai a bennwyd gan yr UE.

Fel y disgrifiwyd yn y tabl uchod, mae papur partneriaeth y dyfodol Llywodraeth y DU ar drefniadau ar gyfer tollau yn cynnig dau opsiwn eang. Mae un opsiwn yn cynnig trefniant tollau syml iawn a'r opsiwn arall yn cynnig partneriaeth newydd â'r UE ym maes tollau. Yr hyn fydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor yw'r cynnig y byddai'r DU yn cynnal partneriaeth agos ag Undeb Tollau'r UE am gyfnod trosiannol. Mae'r papur sy’n ymdrin â thollau yn nodi y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig i ddeall effaith ymarferol unrhyw drefniadau newydd ym maes tollau, gan gynnwys y goblygiadau i borthladdoedd yng Nghymru.

Yn ei phapur ar y deialog ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon, mae'r UE yn nodi mai Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am ganfod ateb ynglŷn â’r ffin. Mae'n cefnogi'r egwyddor o warchod Cytundeb Gwener y Groglith a hawliau dinasyddion o dan yr Ardal Deithio Gyffredin, ac o osgoi ffiniau caled ar y tir. Dywed fod angen gwell dealltwriaeth o'r materion dan sylw, heblaw am y ffin a thollau.

# 4. Barn ar y cynnydd a wnaed gan yr UE a'r DU

Yn y **gynhadledd i'r wasg ar 31 Awst**, ar ôl i drydydd cylch y trafodaethau ddod i ben, dywedodd Michel Barnier, Prif Drafodwr yr UE, y gwnaed cynnydd ar rai materion mewn perthynas â'r trafodaethau ar hawliau dinasyddion, ar y gweithdrefnau ar achosion sy'n aros am ddedfryd ar y dyddiad ymadael, ac ar gynnal yr Ardal Deithio Gyffredin. Fodd bynnag, dywedodd ei fod o'r farn nad oedd unrhyw gynnydd pendant wedi'i wneud ar y prif bynciau eraill. Dywedodd ei bod hi'n annhebygol, fel y mae'r trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, y gallai argymell i'r Cyngor ym mis Hydref fod cynnydd digonol wedi'i wneud ar y cam cyntaf, sef y cytundeb ymadael, er mwyn symud y trafodaethau ymlaen i siarad am berthynas yn y dyfodol. Pwysleisiodd y rôl y byddai Senedd Ewrop yn ei chwarae wrth asesu'r hyn a gyflawnwyd.

Ar 7 Medi, **galwodd Mr Barnier** ar Lywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiadau ariannol er mwyn gallu symud ymlaen yn y trafodaethau ar y setliad ariannol. Mewn ymateb i bapur Llywodraeth y DU ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon, **dywedodd**:

> *What I see in the UK's paper on Ireland and Northern Ireland worries me.*
>
> *The UK wants the EU to suspend the application of its laws, its Customs Union, and its Single Market at what will be a new external border of the EU.*
>
> *And the UK wants to use Ireland as a kind of test case for the future EU-UK customs relations.*
>
> *This will not happen.*
>
> *Creativity and flexibility cannot be at the expense of the integrity of the Single Market and the Customs Union.*
>
> *This would not be fair for Ireland and it would not be fair for the European Union.*

Wrth siarad ar ôl i drydydd cylch y trafodaethau ddod i ben, **dywedodd David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE** fod camau pendant wedi'u cymryd mewn rhai meysydd. Pwysleisiodd ei farn o hyd fod materion yn ymwneud â'r cytundeb ymadael a'r bartneriaeth yn y dyfodol yn gysylltiedig ac y dylid eu trafod ochr yn ochr. O ran y setliad ariannol, dywedodd David Davis fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ei dadansoddiad cyfreithiol o safbwynt yr UE ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb, materion oddi ar y gyllideb a'r Banc Buddsoddi Ewropeaidd. Dywedodd fod mwy o gyd-ddealltwriaeth o'r safbwyntiau gwahanol ond cydnabu fod bwlch sylweddol o hyd y mae angen ei bontio.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol **y wybodaeth ddiweddaraf i Senedd y DU** ar y trafodaethau ar 5 Medi. Yn ei araith, amlinellodd y meysydd yn ymwneud â hawliau dinasyddion lle cafwyd cytundeb. Dywedodd fod y ddwy ochr yn agos at gytuno ar faterion yn ymwneud â breintiau a breintryddid ar ôl ymadael ac ar y trefniadau cyfrinachedd a fydd yn berthnasol i rannu gwybodaeth ar ôl ymadael. Dywedodd y llwyddwyd i symud ymlaen o ran y diffiniad o ba achosion a fyddai'n perthyn i'r categori o achosion sy'n 'aros am ddedfryd' ('pending') ar ôl ymadael. Galwodd ar yr UE i fabwysiadu agwedd fwy hyblyg a chreadigol.

Ar ôl i ail a thrydydd cylch y trafodaethau ddod i ben, mae'r UE a'r DU wedi **cyhoeddi nodiadau technegol ar y cyd** yn nodi'r meysydd y maent yn cytuno ac yn anghytuno arnynt o ran hawliau dinasyddion.

Cyhoeddodd Antonia Tajani, Llywydd Senedd Ewrop, a Guy Verhofstadt, Cydlynydd Brexit, **ddatganiad ar y cyd ar y trafodaethau** ar 7 Medi. Amlinellodd mai barn y mwyafrif yng Nghynhadledd Llywyddion y Senedd yw ei bod hi'n annhebygol y byddai cynnydd digonol wedi'i wneud erbyn cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref er mwyn galluogi'r trafodaethau i symud ymlaen. Cyhoeddwyd y bydd Senedd Ewrop yn mabwysiadu penderfyniad yn ystod ei gynulliad cyntaf ym mis Hydref ar y cynnydd a wnaed ar hawliau dinasyddion, blaenoriaethau'r Senedd ar gyfer Gogledd Iwerddon ac Iwerddon a'i barn ar y setliad ariannol.

Disgwylir i Theresa May, y Prif Weinidog, wneud araith yn Fflorens ar 22 Medi ar yr hyn a gyflawnwyd yn y trafodaethau hyd yma.

# 5. Ymateb a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru

Ar 18 Awst, cyhoeddodd Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog, **ddatganiad** mewn ymateb i gyhoeddi papurau sefyllfa'r DU ar dollau a Gogledd Iwerddon. Cytunodd â'r safbwynt na ddylid cael ffin tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain ac y dylid cael cyfnod trosiannol er mwyn rhoi amser i drefniadau newydd ym maes tollau ddod i rym. Fodd bynnag, dywedodd mai 'ychydig iawn o hyder neu sicrwydd y mae'r papur hwn yn ei roi ynghylch safbwynt negodi cadarn a chredadwy i'r DU'. Dywedodd na fu unrhyw ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar gynnwys y papurau ac 'ychydig iawn o rybudd ymlaen llaw a gafwyd am eu cyhoeddi'.

Ar 7 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur ***Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl.*** Mae'r papur yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ynglŷn â dull gweithredu sy'n amrywio o ardal i ardal o ran mewnfudo yn y DU ar ôl ymadael â'r UE, pe byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu mabwysiadu dull seiliedig ar sectorau penodol ar gyfer y polisi mewnfudo. Mae'n nodi nad dyna'r opsiwn y byddai'n ei ffafrio ond y byddai'n ceisio cael mwy o reolaeth dros fewnfudo i Gymru pe byddai Llywodraeth y DU yn mabwysiadu dull seiliedig ar sectorau penodol.

Yn y papur, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cael dull gwahanol a ffafriol i fewnfudwyr o wledydd yr AEE a'r Swistir. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cael targed mewnfudo net ac yn awgrymu y dylai mewnfudo ar gyfer gwladolion yr AEE a'r Swistir fod wedi'i gysylltu'n agosach â chyflogaeth. Mae'n cynnig model Norwy fel enghraifft. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn galw am well gorfodaeth o ran rheolau a hawliau cyflogaeth a'r gweithle er mwyn atal achosion o gamfanteisio ar weithwyr sy'n fewnfudwyr ac o dalu cyflogau is na rhai gweithwyr domestig trwy gyfrwng arferion annheg.

Mae'r papur ar fewnfudo yn dilyn papur sefyllfa ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ar y berthynas yn y dyfodol rhwng Cymru a'r UE, ***Diogelu Dyfodol Cymru*** a phapur polisi Llywodraeth Cymru ar ***Brexit a Datganoli.***